# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2206 |
| Committee | Cyd-bwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Date | 08/10/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Is-gadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Keri Rowson (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd) |
| | Mr. Tim Baxter (Co-Optee) |
| | Mr. Alun Williams (Co-Optee) |
| | Damien McCann (Swyddog) |
| | Gemma Wasley (Swyddog) |
| | Tanya Evans (Swyddog) |
| | Alyson Hoskins (Swyddog) |
| | Lynn Phillips (Swyddog) |
| | Alison Rawshaw (Swyddog) |
| | Gavin Metheringham (Swyddog) |
| | Michelle Jones (Swyddog) |
| | Sarah Dixon (Swyddog) |
| | Sarah Jones (Swyddog) |
| | Liz Thomas (Swyddog) |
| | Gwasanaethau Democrataidd (Notify) |

| | |
|---|---|
| | Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| Item ID | 2599 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 2600 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, C. Meredith, M. Moore, G. Paulsen a T. Sharrem<br><br>**<u>Aelod a Gyfetholwyd</u>**<br>Alun Williams |

| Item ID | 2601 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2602 |
|---|---|
| Item Title | Cydbwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cydbwyllgor Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 2805 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 2 Rhagfyr 2019 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cyd-bwyllgor Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019, yn cynnwys: |

**COVID-19**

Mynegodd Aelod siom na fu unrhyw drafodaeth gyda'r Cadeirydd a Swyddogion Arweiniol yn yr Awdurdod yng nghyswllt sefyllfa COVID-19 a'r sgil effaith yng nghyswllt y Gyfarwyddiaeth Addysg a theimlai y dylai Aelodau gael gwybodaeth lawn am y sefyllfa.

**Profion ac Ansawdd Dŵr**

Dywedodd Aelod y cynhelir cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. Fel y Pwyllgor cynnal, dim ond Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol fyddai â hawliau pleidleisio ond ni fyddai pleidlais gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. Teimlai'n gryf fod profion ac ansawdd dŵr yn fater diogelu ac y dylai gael ei ystyried yn y Pwyllgor hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y penderfynwyd cyfarfod cyd-bwyllgor rhwng y ddau Bwyllgor Craffu gan fod gan Gwasanaethau Cymunedol gyfrifoldebau Landlord Corfforaethol.

Dywedodd Aelod arall ei bod yn bwysig fod Aelodau, fel Pwyllgor Diogelu, yn gwybod am y sefyllfa yng nghyswllt sut a phwy sy'n gwneud penderfyniadau a bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud a'u dilyn yn gywir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg fod y mater ansawdd dŵr wedi oedi ailagor rhai ysgolion ac y cynhaliwyd ymchwiliad annibynnol i adolygu prosesu. Cyflwynir adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Craffu yn rhoi sylw i nifer o feysydd i gael eu datblygu a'u gwella wrth symud ymlaen.

Ailadroddodd yr Aelod ei siom am hawliau pleidleisio ar gyfer Aelodau Craffu Addysg a Dysgu. Teimlai'r Cadeirydd hefyd y dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu gael hawliau pleidleisio ar y mater hwn.

Dywedodd y Swyddog Democrataidd a Chraffu y byddai'n mynd â'r pwyntiau hyn yn ôl i'r Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.

Teimlai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y dylid trafod cyfarfod gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr ac Arweinyddiaeth y Cyngor i drafod y mater hwn.

Cododd Aelod arall bryderon pellach am adroddiad Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol a ysgrifennwyd ym Mehefin 2020 yng nghyswllt cyfrifoldebau diogelu. Teimlai fod materion o fewn ysgolion tebyg i iechyd a diogelwch, ansawdd dŵr a COVID-19 i gyd yn faterion diogelu ac yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu, ac o'r herwydd y dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu gael rhan yn unrhyw benderfyniadau a wneir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim mai prif gyfrifoldeb y Cyd-

| | |
|---|---|
| | bwyllgor Diogelu yw diogelu plant. Yng nghyswllt profion dŵr, byddai'r gweithdrefnau hyn yn dod dan y rheoliadau Iechyd a Diogelwch ac yn alinio gyda gwaith Gwasanaethau Technegol e.e. Legionella. Felly, bu angen trefnu Cyd-bwyllgor Craffu i ystyried trafodaethau gan Aelodau'r ddau Bwyllgor.<br><br>Teimlai'r Cadeirydd y dylid bod wedi trefnu Cyd-bwyllgor Craffu gyda hawliau pleidleisio llawn ar gyfer pob Aelod. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y byddai'n mynd â'r sylwadau hyn yn ôl i Gwasanaethau Democrataidd cyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Craffu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Dywedodd Aelod na fu unrhyw blentyn mewn risg gan y bu system brofi drylwyr yn ei lle a bod ysgolion wedi parhau wedi ynysu nes y cafodd y profion eu cwblhau. Teimlai y cafodd gosodiadau addysgol dysgwyr wedi eu diogelu a byddai'n addas aros am ganfyddiadau'r adroddiad i gael trafodaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen gweithredu yma. |

| Item ID | 2604 |
|---|---|
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y cynhelir cyfarfodydd y dyfodol am 10.00 a.m. |

| Item ID | 2801 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Diogelwch Ar-lein 360 gradd ar gyfer Ysgolion |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg sy'n cyflwyno Polisi Diogelwch Ar-lein 360 gradd Safe Cymru ar gyfer ysgolion a gofynnodd Aelodau am farn aelodau ar y templed polisi cyn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol ar gyfer ysgolion.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Caiff y polisi ei ddarparu gan Southwest Grid for Learning sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r bwriad yw sicrhau y gall dysgwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyfathrebu cysylltiedig mewn modd addas ac yn ddiogel. Roedd y teimladau polisi yn gynhwysfawr iawn ac yn rhoi sylw i ystod llawn o ystyriaethau ar gyfer diogelwch ar-lein a chaniateir ddefnyddio'r polisi hwn fel y mynnant i fod yn addas i'w lleoliad neilltuol. Byddai polisïau eraill sy'n bodoli eisoes o fewn ysgolion yn cael eu disodli pan weithredir y polisi.<br><br>Holodd y Cadeirydd pa ddulliau diogelu sydd ar gael i rieni roi ar ddyfeisiau eu plant. Dywedodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg fod Llywodraeth Cymru yn diweddaru eu gwefan 'Cadw'n Ddiogel Ar-lein' yn rheolaidd ac y byddai'n cynnwys dolen i'r ddogfen o fewn eu datganiad polisi. Dywedodd y |

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod gwefan Bwrdd Diogelu Gwent hefyd yn rhoi cyngor ar ffurf syml ar fesurau rheoli rhieni yng nghyswllt dyfeisiau symudol a chyfrifiadur. Byddai'n cydlynu gyda'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg i anfon y ddolen ar-lein i rieni.<br><br>Ategodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg sylwadau'r Cyfarwyddwr a dywedodd y datblygwyd protocol ar gyfer ffrydio addysgu ar-lein ac yn y blaen yn ystod pandemig COVID-19 i gefnogi rhieni a gellid trosglwyddo rhyw fath o gyfathrebiad gan ysgolion i rieni i'w cefnogi gyda'r mater hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>• anfon dolen Llywodraeth Cymru 'Cadw'n Ddiogel Ar-lein' i rieni; ac<br>• argymell fod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo'r polisi. |

| Item ID | 2802 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Diogelwch Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim a'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar Bolisi Diogelu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn dilyn ei adolygiad blynyddol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y diweddariadau dilynol i'r polisi:-<br><br>• Cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019, sy'n disodli cyfeiriad blaenorol at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008;<br>• Cynnwys polisi diogelu Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn atodiad 3 y polisi;<br>• Cynnwys y protocol casglu data diogelu; a<br>• Chynnwys atodiad COVID-19 i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a gadarnhau'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi adroddiad am bryderon. Gellir diweddaru'r atodiad hwn yn rheolaidd wrth i'r sefyllfa argyfwng ddatblygu a newid.<br><br>Cododd Aelod bryderon am y pwysau ar fywyd cartref megis problemau ariannol, colledion swydd ac yn y blaen a'r newid mewn deinameg mewn cartrefi gyda llawer o rieni yn gweithio gartref. Holodd sut y gellid casglu adborth o'r sefyllfaoedd hyn gan y gallai hyn arwain at gynnydd yn y dyfodol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant sicrwydd yr ymatebir yn briodol i'r atgyfeiriadau hynny gyda phryderon am ddiogelu, h.y. amddiffyn plant, cam-drin neu esgeulustod, beth bynnag am bandemig COVID-19, ac ar gyfer y plant hynny oedd adref oherwydd diffyg darpariaeth ysgol, nid oedd dim wedi rhybuddio'r awdurdod leol am unrhyw bryderon diogelu.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at oblygiadau ehangach diogelu a sut y byddai straen y |

gweithle yn mynd i'r cartref teuluol yn effeithio ar fywydau plant yn gyffredinol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant y gwnaed cyllid ychwanegol drwy'r Gronfa Datblygu Plant ar gael ac mae wedi ei dargedu'n benodol at y plant hynny sydd wedi dioddef fel canlyniad i COVID-19, nail ai'n addysgol, yn emosiynol neu drwy lesiant holistig. Byddai'r Gyfarwyddiaeth yn edrych ar y carfannau hyn o blant mewn cysylltiad gyda Teuluoedd yn Cyntaf a Dechrau'n Deg. Byddai cyfle hefyd i edrych ar leoliadau statudol. Byddai'r cyllid ychwanegol yn helpu i ymchwilio pa gymorth arall fedrai fod ar gael ar gyfer y plant hynny a all fod wedi dioddef ar lefel is drwy beidio mynychu ysgol a thrwy'r ynysigrwydd cymdeithasol y gallant fod wedi eu brofi pan oedd yr ysgolion ar gau.

Cododd Aelod bryderon am gynnydd yng nghyfraddau COVID-19 ac amddiffyn staff ysgol. Mae rhai yn aros hyd at un wythnos ar gyfer canlyniadau, tra'u bod yn aros yn yr ysgol yn gofalu am ddisgyblion. Holodd os oedd ffordd i sicrhau fod staff ysgolion yn cael profion rheolaidd tebyg i staff mewn cartrefi gofal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol fod y gyfradd wedi gostwng i 83 fesul 100,000 yn yr wythnos ddiwethaf felly mae cynnydd wrth ostwng y gyfradd mewn cymunedau. Yng nghyswllt porth y Deyrnas Unedig, efallai na all pobl gael mynediad i brofion yn lleol ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i ganfod datrysiad. Mae labordy pellach yn ardal Casnewydd i alluogi cynnal 20,000 o brofion ychwanegol yn cael ei ddatblygu i ddod ar waith ym mis Tachwedd. Byddai angen i lawer o bobl, nid dim ond mewn Addysg, ond ar draws y Cyngor i aros gartref tra'n disgwyl canlyniadau profion. Mae'r broblem hon yn bodoli ar draws y Deyrnas Unedig ac nes y gellir cael canlyniadau profion yn ôl o fewn y targed o 72 awr, yna byddai problemau drwy gydol cyfnod y gaeaf.

Gadawodd y Cynghorydd Tommy Smith y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Dywedodd Aelod, er ei fod yn cefnogi'r polisi, fod ganddo bryderon am Atodiad COVID-19 yng nghyswllt y negeseuon cymysg a gafodd rhieni am ynysigrwydd plant gyda brodyr a chwiorydd sy'n mynychu ysgol wahanol. Holodd os y gellid cyfleu gwybodaeth glir i rieni i'w galluogi i wneud penderfyniadau i amddiffyn eu plant heb ofni ôl-effeithiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bu dryswch am negeseuon cymysg ar draws y Deyrnas Unedig, eglurodd os yw plentyn yn profi'n bositif yna bod angen i'r plentyn hynny hunan-ynysu ac aros o'r ysgol ynghyd gydag unrhyw frodyr neu chwiorydd. Os bu plentyn mewn cysylltiad gyda rhywun yn yr ysgol sydd yn bositif, yna byddai'n rhaid i'r plentyn hynny hunanynysu ond ni fyddai'n rhaid i'w brodyr a chwiorydd wneud, felly nid oes angen i gyswllt cyswllt hunanynysu a gallai barhau i fynychu'r ysgol. Mae hyn yn gyngor ac arweiniad cenedlaethol fodd bynnag, derbyniodd benderfyniadau'r rhieni os oes gan rieni bryderon gyda'u plant yn mynychu'r ysgol yn ystod y pandemig.

Ailddywedodd yr Aelod y dylai'r Cyngor hysbysu rhieni y dylent weithredu heb ofni ôl-effeithiau os oes ganddynt unrhyw bryderon neu amheuon. Teimlai y byddai hyn yn rhoi elfen o hunan-ddewis i rieni. Dywedodd y

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddwr Interim Addysg fod y Gyfarwyddiaeth yn cydlynu gyda chydweithwyr yn Iechyd yr Amgylchedd lle dynodwyd achos sensitif a rhoddir cyngor glir i'r teulu a chaiff hyn hefyd ei ddilyn gan yr elfen Profi, Olrhain a Diogelu. Yng nghyswllt diffyg mynychu ysgol oherwydd sefyllfa argyfwng COVID-19, nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i roi hysbysiadau cosb. Cyfeiriodd at y cyngor ac arweiniad cenedlaethol a dywedodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r trefniadau cenedlaethol.<br><br>Cododd Aelod bryderon am blant a ddylai fod yn hunanynysu yn cael eu gadael mas yn y gymuned gan eu rhieni tra'u bod yn disgwyl canlyniadau profion. Teimlai fod rhai rhieni yn peryglu iechyd plant drwy ganiatáu iddi fynd mas yn y gymuned. Gellid ystyried hyn fel esgeulustod a holodd os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu, sydd â chyfrifoldeb am ddirwyon, yn edrych ar y mater hwn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant y byddai'n tueddu i fod yn betrus pe bai Aelodau o blaid anfon neges gyffredinol at rieni yng nghyswllt y plant hynny a allai fod yn asymptomatig, symptomatig neu hyd yn oed wedi cael prawf positif sy'n cael mynd mas yn y gymuned. Dywedodd nad yr ysgol sy'n gyfrifol ar ôl dweud wrth blant i hunanynysu, penderfyniad y rhieni yw os ydynt yn bryderus am ddiogelwch eu plant. Byddai'n well cael dull cefnogol i annog rhieni i gadw eu plentyn a sôn am oblygiadau peidio dilyn canllawiau cenedlaethol. Os yw'r ymddygiad yn parhau gallai'r Gyfarwyddiaeth gydlynu gyda swyddogion lleol Ymgysylltu â'r Gymuned i gynghori ymhellach os y byddai'n ateb y maen prawf ar gyfer consyrn diogelu ac yn y pen draw, ymweliad ar y cyd gyda'r heddlu ond byddai hyn yn dibynnu ar ffactorau eraill.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'n edrych yn ôl ar yr atgyfeiriadau o Chwarteri 1 a 2 i wirio os bu unrhyw blant a ddynodwyd mas yn y gymuned pan y dylent fod wedi bod yn hunanynysu. Byddai hefyd yn cydlynu gyda Teuluoedd yn Gyntaf, gwasanaethau ataliol haen is, i wirio os oeddent wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau o'r fath.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu yma.<br><br>Dywedodd Aelod, pa bynnag gamau a gymerir, y bydd bob amser eithriadau. Mae hon yn sefyllfa anodd gyda rhieni yn ansicr pa ddull gweithredu i'w gymryd.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Strategol Addysg y byddai'n gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddynodi mannau anodd pan y gallai digwyddiadau o'r fath ddigwydd pan nad yw plant yn yr ysgol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y drafft bolisi fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. |

| Item ID | 2803 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Item Title | Gwybodaeth Perfformiad Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol – 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i roi gwybodaeth a dadansoddiad perfformiad gan Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.<br><br>Rhoddodd Rheolwr Strategol Gwella Addysg drosolwg i Aelodau am y rhesymau pam na fedrodd y Gyfarwyddiaeth Addysg roi gwybodaeth perfformiad i gael ei chynnwys yn yr adroddiad ar hyn o bryd.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y deallai'r angen i benaethiaid a staff ysgolion i ganolbwyntio ar yr heriau gweithredol o fewn ysgolion yn ystod y pandemig a derbyniodd y rhesymau pam nad oedd casgliad arferol data perfformiad ar gael ar hyn o bryd. Gofynnodd am i'r nodyn gwybodaeth gael ei gylchredeg i Aelodau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor gyda'r llwybr gweithredu hwn.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Oherwydd y pandemig, esboniodd fod yr wybodaeth yn yr adroddiad perfformiad yn wybodaeth hanesyddol. Dywedwyd y bu cysondeb drwy gydol y pedwar chwarter yng nghyswllt atgyfeiriadau a rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth sicrwydd i Aelodau fod diogelu'n parhau'n flaenoriaeth i Gwasanaethau Plant a bod cyfrifoldebau diogelu yn parhau ar gyfer y plant hynny y barnwyd eu bod mewn risg.<br><br>Dywedodd Aelod y bu diogelu yn un o nifer o argymhellion gan Estyn pan fu Gwasanaethau Addysg Blaenau Gwent mewn mesurau arbennig a holodd pryd y tro diwethaf i Estyn adolygu diogelu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg, ers i'r Cyngor gael ei dynnu o fesurau arbennig, y cynhelir cyfarfodydd unwaith y tymor gyda'r Awdurdod Lleol ac Arolygwyr Cyswllt Estyn ac roedd diogelu'n ymddangos ar yr agenda yn gyfnodol lle hysbysid Arolygwyr Cyswllt am unrhyw ddatblygiadau tebyg i ddiweddariadau polisi. Yn ymweliad monitro diwethaf Estyn roeddent wedi cydnabod y gwnaed cynnydd da ar yr argymhelliad a gafodd ei roi ar waith ar weithdrefnau diogelu. Mae Estyn bellach yn rheoleiddio awdurdodau lleola r safbwynt addysg ehangach fel rhan o fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.<br><br>Yng nghyswllt fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol, dywedodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg fod y Gyfarwyddiaeth wedi cwblhau eu hunanarfarniad gyda diogelu yn elfen allweddol dan agwedd arweinyddiaeth a rheolaeth y fframwaith. Holodd os yw Aelodau eisiau adroddiad yn y dyfodol yn nhermau'r detholiad o'r hunan-arfarniad i gael ei baratoi ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef: |

| | |
|---|---|
| | • derbyn y nodyn gwybodaeth ar resymau pam na fedrodd y Gyfarwyddiaeth Addysg roi gwybodaeth perfformiad yn yr adroddiad hwn ar hyn o bryd; a<br>• pharatoi adroddiad ar y detholiad ar ddiogelu o'r hunanarfarniad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. |

| Item ID | 2804 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Diogelu Oedolion 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad Diogelu yng nghyswllt Gwasanaethau Oedolion o 1 Ionawr 2020 i 31 Mawrth 202 am 4ydd chwarter y flwyddyn ariannol a hefyd wybodaeth am flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Chomisiynu am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Roedd sefyllfa debyg ar gyfer Gwasanaethau Plant. Yn hanesyddol mae'r tueddiadau'n parhau'n sefydlog ac mae'r Adran yn dal i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau, gyda'r gwahanol ffyrdd o weithio y cedwir cyfathrebu gyda chartrefi gofal ac asiantaethau partner yn rheolaidd, gan weithio gyda darparwyr, cynnig cymorth ariannol o ran atgyfeiriadau a thrafodaethau am brofion. Mewn gofal yn y cartref, mae asiantaethau yn cydweithio i ddatblygu cynlluniau wrth gefn, gan weithio drwy'r broses rheoli risg yng nghyswllt cynnydd yn yr ail don. Mae'r Adran yn parhau i gefnogi cartrefi gofal ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd a phartneriaid. Ar hyn o bryd mae gweithlu sefydlog sy'n parhau i gefnogi darparwyr mewn amgylchiadau heriol iawn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod Aelodau'n derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd. |